UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Ymgynghoriad:
Mesur Arfaethedig y Gymraeg

Mai 2010

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Ymgynghoriad: Mesur Arfaethedig y Gymraeg

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn falch i gael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ynghylch Mesur Arfaethedig y Gymraeg.

Mae UCAC yn undeb â 5,000 o aelodau sy'n athrawon a phrifathrawon ysgol, ac yn ddarlithwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru. Mae ei bencadlys yng Nghymru, ac mae'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae UCAC yn croesawu'r Mesur Arfaethedig, ynghyd â'i fwriad i gryfhau'r gyfundrefn sy'n hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i sicrhau eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg.

1. **A oes angen Mesur arfaethedig i gyflawni'r amcanion datganedig?**

   Yn sicr, mae angen Mesur er mwyn datblygu'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Cytunwn na fyddai modd gweithredu'r manteision a ddymunir heb ddeddfu.

   Wrth gyplysu'r angen i gryfhau nifer o agweddau ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, gyda'r ffaith fod newidiadau sylweddol ers 1993wedi effeithio ar sawl sector sy'n dod o dan gwmpas y Ddeddf honno, mae'r angen am Fesur newydd yn ddiymwad.

   Serch hynny, teimla UCAC bod un o'r amcanion datganedig nad sy'n haeddu ei le yn y Mesur hwn. Nid yw UCAC yn teimlo bod yr amcan 'gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â statws y Gymraeg' yn haeddu'i le yn y Mesur hwn, am nad yw'n cyflawni unrhyw beth nad sydd eisoes wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth eisoes. Petai'r Mesur yn gwneud datganiad clir ynghylch statws swyddogol yr iaith Gymraeg, mi fyddai'n mynd ymhellach na deddfwriaeth flaenorol; byddai cymal o'r fath yn haeddu'i le yn y Mesur, ac mi fyddai UCAC yn croesawu hynny'n fawr iawn.

2. **A yw'n hawdd deall goblygiadau ymarferol y Mesur arfaethedig i'ch sefydliad? Rhowch resymau dros eich ateb.**

   Nid yw UCAC yn rhagweld y bydd goblygiadau sylweddol iddo yn deillio o'r Mesur. Serch hynny, mae'n werth nodi mewn egwyddor nad yw'n hawdd deall y goblygiadau am fod y 'safonau' a grybwyllir yn ddarostyngedig i is-deddfwriaeth yn hytrach na'u bod yn ymddangos ar wyneb y Mesur. Deallwn mai swyddogaeth y Comisiynydd yw llunio'r safonau, ond yng nghyd-destun y Mesur mae'r safonau'n gwbl haniaethol. Awgrymwn y gall fod lle i ehangu ar natur posib y safonau hyn yn y Memorandwm Esboniadol.

3. **Yn amodol ar unrhyw ateb mewn perthynas â chwestiwn 2, sut fydd y Mesur arfaethedig yn newid yr hyn y mae'ch sefydliad yn ei wneud ar hyn o bryd a pha effaith gaiff y newidiadau hyn?**

   Nid yw'n debygol y bydd goblygiadau sylweddol gan y Mesur ar gyfer UCAC gan fod yr undeb eisoes yn gweithredu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithiwn serch hynny y byddwn yn gweld gwahaniaeth wrth ymwneud â sefydliadau a mudiadau eraill o ran eu parodrwydd nhw i gyfathrebu yn y Gymraeg.

   Deallwn nad yw grym y Mesur yn estyn i gynnwys Gweinidogion neu gyrff y Goron. Gresynwn at hynny, gan fod UCAC wedi bod yn pwyso am flynyddoedd mawr i weld y '*School Teachers' Pay and Conditions Document*' a gyhoeddir gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) ar gyfer holl athrawon Cymru a Lloegr yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

4. A yw adrannau'r Mesur arfaethedig yn briodol o ran cyflawni'r amcanion datganedig?

a) gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â statws swyddogol y Gymraeg (adran 1)

Gweler yr ateb i gwestiwn 1 uchod; nid ydym yn ystyried bod yr amcan ei hun yn ddigon uchelgeisiol; ni welwn unrhyw reswm i beidio datgan yn glir bod yr iaith Gymraeg yn iaith swyddogol. Byddai gwneud hynny'n rhoi sail gadarn ar gyfer holl amcanion eraill y Mesur.

b) sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg a'i swyddogaethau (adrannau 2-21)

Mae gennym amheuon ynglŷn â phriodoldeb penodi'r Comisiynydd gan y Prif Weinidog. Onid penodiad gan y Cynulliad Cenedlaethol fyddai fwyaf arferol (e.e. ar fodel yr Archwilydd Cyffredinol neu'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus), ac yn rhoi rhyddid hyd-braich oddi wrth unrhyw ddylanwad gwleidyddol? Mae hyn yn arbennig o bwysig yn sgil grym y Comisiynydd i osod sancsiynau ar Weinidogion Cymru.

c) sefydlu Panel Ymgynghori Comisiynydd y Gymraeg (adrannau 22-23)

Yn yr un modd ag uchod, onid y Cynulliad Cenedlaethol ddylai fod yn penodi'r Panel Ymgynghori, yn hytrach na Gweinidogion Cymru?

ch) sefydlu system newydd ar gyfer rhoi dyletswyddau ar bobl o ran y Gymraeg ar ffurf safonau (adrannau 24-69)

Gallwn ddeall, a chymeradwyo mewn egwyddor, y bwriad i symud o gynlluniau iaith i system safonau; mae gan newid o'r fath y potensial i gysoni safonau, a lleihau biwrocratiaeth o ran y sawl sydd wedi gorfod creu cynlluniau, ac o ran y sawl sy'n gorfod eu cymeradwyo a'u monitro. Serch hynny, er gwaethaf adrannau niferus yn y Mesur, erys yn annelwig beth fydd natur y safonau hyn, a sut y'u gweithredir. Defnyddiol fyddai cael enghreifftiau, o bosib yn y Memorandwm Esboniadol.

5. A oes rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Mesur arfaethedig ar waith (ac os oes, beth ydynt) ac a yw'r Mesur arfaethedig yn ystyried y rhain?

6. A oes gan y Mesur arfaethedig oblygiadau ariannol i'ch sefydliad, ac os oes, beth ydynt?

Nac oes.

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar adrannau penodol o'r Mesur arfaethedig?

Credwn fod gan bawb yng Nghymru'r hawl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus a phreifat – a bod hynny'n fater o urddas yr unigolyn, ac yn fater o iawnderau dynol sylfaenol. Gresynwn at y ffaith nad yw'r Mesur wedi manteisio ar y cyfle (a) i wneud datganiad clir ynghylch statws swyddogol y Gymraeg (b) i nodi fod defnyddio'r iaith Gymraeg yn hawl ddynol (c) fod gan bob disgybl yng Nghymru yr hawl i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid yw'n glir i UCAC i ba raddau y bydd gan y Comisiynydd rym dros faterion byd addysg, er enghraifft, y Cynlluniau Cymraeg mewn Addysg a fydd yn disodli'r Cynlluniau Addysg Gymraeg dan drefn newydd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Enghraifft arall fyddai'r cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac i weithredu'n brydlon ar y canfyddiadau. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos nad oes unrhyw rym statudol i atgyfnerthu'r cyfrifoldebau hyn. Barn UCAC yw y byddai'n fanteisiol, o bosib drwy ddarpariaethau'r Mesur hwn, i'r grym statudol hwnnw fod yn ei le i sicrhau gweithredu.

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com